

Public Document Pack
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mawrth, 2 Medi 2025

Annwyl Cyngorydd,

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A)

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu (A) Hybrid yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB / Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Mawrth, 9 Medi 2025 am 10:00.**

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

3 - 24

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 25/07/2025 o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu (A) a'r y Cofnodion cyfarfodydd y 29/10/2024, 23/12/2024, 23/07/2025 o'r Is-Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (A).

4 Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

5 Gwahardd y Cyhoedd

Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

6 Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

25 - 26

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion eithrio cyfarfod y 15/07/2025

7 Grant of a Hackney Carriage and Private Hire Driver's Licence

27 - 42

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

A R Berrow

S J Bletsoe

Clatworthy

RJ Collins

M Lewis

J Llewellyn-Hopkins

J E Pratt

Agenda Item 3

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

J E Pratt

RJ Collins

Uwch Gyfreithiwr
Uwch Swyddog Trwyddedu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth
Prentys Busnes Gweinyddol - Gwasanaethau Democrataidd

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	15 Gorffennaf 2025

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
------------------------	------

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) - DYDD MAWRTH, 15 GORFFENAF 2025

Dyddiad gwneud y penderfyniad	15 Gorffennaf 2025

71. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Cymeradwyo bod cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu A dyddiedig 04/02/2025 yn gywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	15 Gorffennaf 2025

72. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	15 Gorffennaf 2025

73. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Ar ôl cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynodd yr Is-bwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, y dylid ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth
Dyddiad gwneud y penderfyniad	15 Gorffennaf 2025

74. Rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat

Y penderfyniad a wnaed	Roedd yr eitem hon yn esempt.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	

75. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

Y penderfyniad a wnaed	Roedd yr eitem hon yn esempt.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:33

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR DEDDF DRWYDDEDU 2003 (A) AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 29 HYDREF 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

J Llewellyn-Hopkins J E Pratt

Swyddogion:

Rachel Keepins	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Michael Pitman	Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Katie Wintle	Cyfreithiwr
Yvonne Witchell	Uwch Swyddog Trwyddedu

Datganiadau o Fuddiant

Dim

16. Cais am drwydded safle newydd i The Loft Bar Bridgend, 14 ac 20 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr.

Penderfyniad	Croesawodd y Cadeirydd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain ar gyfer y cofnod. Rhodri Apsee and Mark Minchington (gyda'r ymgeisydd), Maree Stephens (achos rhif 2), Matthew Jones (Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (SRS) – achos rhif 5), Katie Wintle (swyddog cyfreithiol) ac Yvonne Witchell (Uwch Swyddog Trwyddedu). Mynychwyd y gwrandawriad o bell hefyd gan Lesley Richard (achos rhif 1) a Victoria Stephens (achos rhif 3).
--------------	--

	Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad a oedd yn gofyn i Aelodau benderfynu ynghylch cais ar gyfer trwydded eiddo ar gyfer The Loft Bar Pen-y-bont ar Ogwr, a gyflwynwyd gan Daniel Absee. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais am drwydded safle newydd i The Loft Bar Bridgend, 14 ac 20 Stryd Nolton, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DU. Rhoddodd yr ymgeisydd ddisgrifiad o'r safle yn y cais fel a ganlyn: <i>"Bar coctel / gwin a lleoliad / ystafell ddigwyddiadau ar lawr gwaelod 14 Stryd Nolton a'r llawr cyntaf a'r ail lawr yn 20 Stryd Nolton, Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DU."</i> Cynghorodd fod manylion y cais wedi'u nodi yn Atodiad 1. Cyflwynodd yr ymgeisydd ei achos i'r Is-bwyllgor gan dynnu sylw at ei ddatganiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd at y pwyntiau ynghylch sŵn poteli gwydr, gan ddatgan nad oedd wedi sylweddoli fod hyn yn broblem cyn derbyn yr achosion. Cafodd alwad ffôn â Matthew Jones (SRS) ac ni chodwyd y mater hwn. Derbyniodd y gallai hyn fod yn ddiofalwch ar ei ran ond dywedodd ei fod wedi siarad â staff ac wedi cadarnhau na fydd gwydrau yn cael eu taflu ar ôl 10pm a'i fod wedi cwblhau hyfforddiant bellach gyda staff mewn perthynas â niwsans swm. Dywedodd Mr Apsee ei fod wedi cael sgwrs â Matthew Jones (SRS) a'i fod yn barod i drafod ar y diwrnod hwnnw ond bod Matthew Jones wedi ymddangos yn amharod i wneud hynny a bod yr alwad wedi dod i ben, ond roedd yn dymuno gweithio â nhw ynghylch y materion hyn ac fe wnaeth gydnabod bod angen ail-ddechrau cyfathrebiad ar ryw ffurf i fynd i'r afael a'r materion sy'n codi. Dywedodd ei fod yn y bôn yn dymuno gwneud Pen-y-bont ar Ogwr yn le gwell a'i fod hefyd yn dymuno gwneud preswylwyr yn hapus. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor p'un ai un fynedfa yn unig sy'n cael ei defnyddio, am ei bod yn ymwybodol fod dwy fynedfa ar y safle o bosibl. Dywedodd Mr Apsee bod dwy fynedfa ond mai dim ond un sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ond y byddent yn ystyried agor yr ail fynedfa yn y dyfodol. Mae'n trafod â'r landlord fel y gall yr ail fynedfa gael ei defnyddio. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor pa drafodaethau sydd wedi'u cael rhyngddo ef â'r SRS.
--	---

	Dyweddodd Mr Apsee bod trafodaeth gychwynnol wedi bod â Matthew Jones a'i fod hefyd wedi cael sgwrs fer â'i gyd-weithiwr. Cafodd drafodaeth â Matthew Jones ym mis Medi ble cododd sawl cwyn ac fe holodd Mr Apsee ynghylch natur y rhain ond nid oedd ganddo lawer o fanylion heblaw bod sŵn y tu allan a cherddoriaeth wedi'i recordio i'w chlywed. Dywedodd Mr Apsee ei fod ar y safle a thu allan a'i fod yn credu bod y lefelau yn rhesymol. Teimlodd fod Matthew Jones wedi bod yn ddiystyriol pan ofynnwyd iddo am drafodaeth. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor ble maent yn cael gwared â'u sbwriel. Dyweddodd Mr Apsee fod biniau gwydr o dan y caead yn Arcêd Nolton ond bod y rhain wedi'u symud bellach i du ôl yr arcêd a'u bod yn cael eu rhoi allan ar y stryd pob nos Fercher ar gyfer eu casglu. Dyweddodd Mr Apsee fod cynllun tymor hir ar gyfer ardal awyr agored yng nghefn yr eiddo - mae'r rhain yn datblygu fesul cam ar hyn o bryd. Mae cynllun ar gyfer ardal ysmegu y maent yn gobeithio ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor ble fyddai'r ardal awyr agored wedi'i lleoli. Dywedodd Mr Apsee y byddai hyn y tu ôl i'r llawr cyntaf. Dyweddodd Maree Stephens ei bod yn byw union gyferbyn â The Loft a bod modd gweld i mewn i'w hystafell fyw a'i chegin o The Loft. Gofynnodd pryd y symudwyd y biniau o flaen y safle. Dyweddodd Mr Apsee bod hynny wedi digwydd rhai wythnosau'n ôl pan wnaethant dderbyn yr achosion bod y staff wedi derbyn cyngor na ddylent wagio'r biniau ar ôl 10pm ac y dylent fynd i'r cefn. Gofynnodd Maree Stephens p'un ag yr oedd yn ymwybodol eu bod yn parhau i'w rhoi wrth y caead a'u bod yn taflu bagiau duon yn y biniau nos Wener a nos Sadwrn - ac nad oedd hynny mor swmlyd ac o'r blaen. Dyweddodd Mr Apsee fod biniau plastig y tu mewn a'u bod yn storio bagiau yn yr ardal honno. Gofynnodd Maree Stephens pryd y bu iddo siarad â phreswylwyr ac a oedd hynny'n cynnwys pob preswilydd. Dyweddodd Mr Apsee nad oedd yn sicr ac nad oedd yn dymuno datgan pwy y bu iddo siarad â nhw ai peidio am nad oedd yn dymuno dadlau â chymdogion.
--	--

	Gofynnodd Lesley Bichard a yw'r adeilad wedi'i wneud yn wrthsain. Dywedodd Mr Apsee fod y ffenestri ar flaen yr adeilad wedi'u cau a bod yr adeilad wedi'i insiwleiddio. Gofynnodd y Cadeirydd i'r gwrthwynebwyr gyflwyno eu hachosion. Fe wnaeth y gwrthwynebwyr ail-ddweud y datganiadau y bu iddynt eu darparu gan dynnu sylw at y gerddoriaeth yn hwyr gyda'r nos a'i fod yn llawer rhy uchel a bod modd ei glywed yn y fflatiau er bod y ffenestri wedi'u cau. Fe wnaethant hefyd ddatgan bod llawer o sŵn y tu allan i'r eiddo drwy gydol y nos ac ar ôl iddynt gau yr oeddent yn credu oedd yn gysylltiedig gyda The Loft. Dywedodd Mr Apsee wrth amddiffyn ei achos bod cerddoriaeth uchel a goleuadau'n fflachio yn y fflatiau, ac nad oedd felly'n credu fod ei eiddo yn anghyffredin nac yn waeth na unrhyw eiddo arall yn yr ardal. Cyflwynodd Matthew Jones o'r SRS ei achos. Nododd fod cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar y 4ydd o Orffennaf 2024 a'i fod yn un o'r ymgynghorai ond nad oedd wedi gwrthwynebu ar y pryd. Nid ydynt yn dymuno atal datblygiad ac fe hoffent annog busnes. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor pryd y byddent yn rhoi gwybod iddynt fod problem gyda'r eiddo. Dywedodd Matthew Jones y byddai hyn pan fyddai'r cais am drwydded yn cael ei dderbyn. Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor a ystyriwyd monitorau sŵn. Dywedodd Matthew Jones nad oeddent wedi edrych at unrhyw beth eto. Maent yn darparu'r achosion ar sail unrhyw gais. Nid oeddent wedi rhoi cyngor ar wneud yr adeilad yn wrthsain ayyb. ond y gallent roi cyngor neu gall Mr Apsee ddarparu gwybodaeth iddynt ynghylch beth yw ei fwriad wrth symud ymlaen. Fe wnaeth Mr Apsee gwestiynu'r cyfeiriad at 'sawl cwyn' gan ddatgan mai 2 achwynydd sy'n byw yn yr eiddo ond eu bod wedi cwyno sawl tro. Dywedodd mai lleiafrif y preswylwyr yw hyn a'i fod yn oddrychol - nid oes unrhyw ddata na thystiolaeth gadarn. Cadarnhaodd yn ogystal eu bod yn talu cyfraddau busnes ar gyfer 3 cyfeiriad gwahanol am eu bod yn ei wneud mewn camau gwahanol gan ddefnyddio ystafelloedd ac amseroedd gwahanol, a'u bod yn credu y gallent gael trwyddedau TEN (Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro) ar wahân.
--	--

	Cyflwynodd y gwrthwynebwyr eu datganiadau cloi. Nid oedd Victoria Stephens ar-lein mwyach i gyflwyno datganiad cloi. Gohiriwyd yr Is-bwyllgor i ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr holl bartïon. Mae'r Is-bwyllgor o'r farn bod diffyg cyfathrebiad rhwng Mr Apsee, y preswylwyr a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ac y byddai hi wedi bod yn bosibl mynd i'r afael â'r materion hyn er ateb cytûn i bawb, petai'r partïon wedi cyfathrebu'n gadarnhaol. Mae'r Is-bwyllgor o'r farn bod lefelau'r sŵn, yn ôl pwysau tebygolrwydd, yn gyfystyr â niwsans sŵn sydd yn groes i amcanion trwyddedu i atal niwsans cyhoeddus. Mae'n achosi trallod i'r preswylwyr sy'n byw union gyferbyn â'r eiddo. Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn cydnabod ac yn derbyn fod Mr Apsee yn ceisio gweld canol tref Pen-y-bont ar Ogwr o ran ei fusnes. Nid yw'r Is-bwyllgor wedi ystyried unrhyw fater y tu allan i'w gylch gwaith wrth benderfynu, yn benodol mewn perthynas â'r trwyddedau TEN, materion adeilad a'r hysbysiad atal. <u>PENDERFYNIAD YR IS-BWYLLGOR</u> Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor wrth wneud ei benderfyniadau hyrwyddo amcanion trwyddedu statudol ac yn benodol, atal niwsans cyhoeddus. Mae'r Is-bwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth Ddeddf Drwyddedu 2003, Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan a 182 o'r ddeddf. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi cymryd i ystyriaeth yr achosion a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr, yn ysgrifenedig ac ar lafar. <i>Mae Adran 2 o'r canllawiau statudol yn datgan "Y mae felly'n bwysig, wrth ystyried hyrwyddo'r amcan hyrwyddo hwn bod yr awdurdodau trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol yn canolbwyntio ar effaith y gweithgareddau y gellir eu trwyddedu yn yr eiddo penodol ar bersonau sy'n byw ac yn gweithio (gan gynnwys rhai sy'n parhau gyda busnes) yn yr ardal o amgylch yr eiddo a allai fod yn anghymesur ac yn afresymol".</i> Mae'n datgan ymhellach <i>"Mae amgylchiadau sy'n gysylltiedig gyda niwsans sŵn fel arfer yn ymwneud â chymau priodol er mwyn rheoli'r lefelau sŵn sy'n dod o eiddo".</i>
--	---

	Fel y datganwyd yn y canfyddiadau uchod, mae'r Is-bwyllgor wedi pennu bod y niwsans sŵn i breswylwyr sy'n byw yn yr ardal o amgylch yr eiddo yn torri'r amcan trwyddedu i rwystro niwsans i'r cyhoedd. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gamau rhesymol wedi'u cymryd i ystyried ac i liniaru'r lefelau sŵn sy'n gyfystyr â niwsans cyhoeddus ac o'r herwydd, ni all yr Is-bwyllgor ystyried ychwanegu amodau fel gwneud yr eiddo'n wrthsain neu osod cyfyngyddion sŵn er enghraifft i'r drwydded, am nad oes ganddo unrhyw dystiolaeth o'i flaen y bydd y rhain yn effeithiol. Byddai'r Is-bwyllgor yn annog trafodaethau pellach rhwng Mr Apsee a'r SRS i ystyried a oes modd gostwng lefelau'r sŵn, a allai yn ei dro, leihau'r trallod i'r preswylwyr. Gan hynny, penderfyniad yr Is-bwyllgor yw caniatáu'r drwydded i Mr Apsee, ond gyda'r diwygiadau canlynol: <u>Gwerthiant Alcohol ar gyfer yfed yn yr eiddo ac oddi arno</u> Dydd Llun i Ddydd Mercher: 11:00 - 00:00 Dydd Iau i Ddydd Sadwrn: 11:00 - 00:00 Dydd Sul - 11:00 – 23:00 Amseroedd nad ydynt yn rhai arferol - ni chaniateir <u>Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio - Y Tu Mewn</u> Dydd Sul i ddydd Iau: 23:00 – 00:30 Dydd Iau i Ddydd Sadwrn: 23:00 – 00:30 Amseroedd heb fod yn rhai arferol - ni chaniateir <u>Darparu Cerddoriaeth Wedi'i Recordio - y Tu Allan</u> Dydd Sul i ddydd Mercher: Ni chaniateir wedi 23:00 Dydd Iau i Ddydd Sadwrn: Ni chaniateir wedi 23:00 Amseroedd nad ydynt yn rhai arferol - dim caniatâd <u>Darparu Cerddoriaeth Fyw - (Y Tu Mewn)</u> Dydd Sul i ddydd Mercher: 23:00 – 00:00 Dydd Iau i Ddydd Sadwrn: 23:00 – 00:30 Amseroedd nad ydynt yn rhai arferol - dim caniatâd <u>Darparu Cerddoriaeth Fyw - (Y Tu Allan)</u> Dydd Sul i ddydd Mercher: Ni chaniateir wedi 23:00 Dydd Iau i Ddydd Sadwrn: Ni chaniateir wedi 23:00 Amseroedd heb fod yn rhai arferol - dim caniatâd <u>Darparu ffilmiau - y tu mewn a'r tu allan</u>
--	--

	Dydd Llun – Dydd Sul: 12:00 – 22:00 <u>Oriau Agor</u> Dydd Llun – Dydd Sul: 11:00 - 00:30 Amseroedd heb fod yn rhai arferol - dim caniatâd Ymhellach, mae'r amgylchiadau y cytunwyd arnynt rhwng Mr Apsee a Heddlu De Cymru i'w hychwanegu at y drwydded er mwyn atal troseddu ac anrhefn: Mae'n rhaid i'r eiddo gynnal system recordio camerâu cylch cyfyng sy'n gallu recordio 31 diwrnod o recordiadau 24 awr gyda monitor sydd i ffwrdd o olwg a chyrraedd y cwsmeriaid. Mae'n rhaid i ddelweddau gael eu cadw am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd yr offer yn cael ei ddiogelu'n briodol gyda mynediad cyfyngedig iddo. Bydd y system camerâu cylch cyfyng yn cwmpasu pob ardal y mae gan y cyhoedd fynediad ato o fewn yr eiddo a bydd yn cynnwys pob mynedfa ac allanfa. Bydd y system camerâu cylch cyfyng yn cael eu cynnal, a byddant yn weithredol bob amser y mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd. Bydd delweddau ar gael ar gais ac o fewn 7 diwrnod i'r Heddlu neu unrhyw swyddogion gorfodi eraill naill ai ar USB, disg neu drwy'r system NICE sy'n cael ei defnyddio gan Heddlu De Cymru, os y gwneir cais cyfreithiol am hynny gan swyddog o'r Heddlu neu swyddog Awdurdod Lleol a hynny heb fod unrhyw gost ynghlwm. Bydd y system camerâu cylch cyfyng yn cael ei chofrestru a bydd yn cydymffurfio gyda'r gofynion dan warchod data. Bydd arwyddion yn rhybuddio cwsmeriaid eu bod yn cael eu ffilmio ar gamera cylch cyfyng yn cael eu harddangos mewn man amlwg, Bydd y system camerâu cylch cyfyng yn cael ei gwirio'n fisol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn a bydd cofnod yn cadarnhau hyn yn cael ei gadw yn yr eiddo er mwyn iddo gael ei archwilio. Mae angen i arwyddion gael eu harddangos yn yr eiddo sy'n hysbysu bod polisi dim goddefgarwch cyffuriau ar waith. Ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn a'r Sul cyn Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig, Dydd San Steffan, Dydd Calan a Diwrnod Flwyddyn Newydd bydd o leiaf 2 staff ar y drws cofrestredig gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn cael eu cyflogi am hyd at 150 o'r cyhoedd, ac yna un staff drws cofrestredig gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch i gael ei gyflogi am bob 75 aelod pellach o'r cyhoedd. Bydd staff drws SIA yn ymgymryd â'u dyletswyddau heb fod yn hwyrach na 21:00 o'r gloch ac yn parhau yn yr eiddo hyd nes 15 munud wedi iddo gau er mwyn sicrhau bod y cyhoedd wedi ymadael. Bydd Deiliad Trwydded yr Eiddo yn sicrhau bod cofrestr dyletswyddau staff drws yn
--	--

	cael ei gynnal gydag amseroedd dechrau a gorffen dyletswyddau a bydd yn cofnodi'r rhif trwydded SIA 16 digid, enw llawn, llofnod arferol ac amseroedd ar ddyletswydd a heb fod ar ddyletswydd. Bydd y gofrestr yn cynnwys enw a manylion cyswllt y cwmni sy'n darparu'r staff drws. Bydd y gofrestr ar gael i'w harchwilio os yw hynny'n ofynnol gan unrhyw swyddog awdurdodedig. Bydd cofnod digwyddiad, p'un a yw hynny'n un electronig neu'n ysgrifenedig yn cael ei gynnal er mwyn cofnodi gweithgarwch o natur dreisgar, droseddol neu wrth-gymdeithasol. Bydd y cofnod yn cynnwys yr amser a'r dyddiad, natur y digwyddiad, y bobl oedd yn gysylltiedig, y camau gweithredu a gymerwyd a manylion am y person oedd yn gyfrifol am reoli'r eiddo ar adeg y digwyddiad. Mae'n rhaid i'r llyfr fod ar gael i'w archwilio gan yr Heddlu a swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu. Diogelu Plant rhag Niwed: Rhoi'r 'Cynllun Herio 25' ar waith a'i weithredu i gynnwys: Arddangos arwyddion rhybuddio priodol sy'n hysbysu y bydd unrhyw berson sy'n ymddangos i fod o dan 25 oed yn cael ei holi mewn perthynas â nwyddau a chanddynt gyfyngiad oedran. Dylai arwyddion o'r fath gael eu harddangos wrth fynedfa'r Eiddo, a lle mae alcohol yn cael ei arddangos bydd Staff yn cael eu hyfforddi i holi unrhyw gwsmeriaid sy'n ymddangos i fod o dan 25 oed i gynhyrchu ffurf adnabod dderbyniol pan maent yn ceisio prynu alcohol Yr unig ffurf adnabod dderbyniol fydd a) Prawf Oedran PASS b) Trwydded yrru gyda ffotograff c) Pasbort ch) Ffurf adnabod Filwrol. Dim ond dogfennau gwreiddiol sy'n dderbyniol. Ni fydd ffotograffau o'r dogfennau y crybwyllir uchod (wedi'u harddangos ar ffonau symudol a.y.y.b.) yn cael eu derbyn. Bydd yr holl staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol yn yr Eiddo yn derbyn hyfforddiant ynghylch defnyddio'r cynllun Herio 25, darparu ffurf adnabod a ffurfiau adnabod derbyniol, cofrestr rhai a wrthodir a gwerthiant alcohol drwy ddirprwy. Dylai hyfforddiant o'r fath gael ei ddogfennu a'i llofnodi a'i arwyddo gan yr aelod staff unigol sy'n gysylltiedig ag ef. Dylai cofnod ysgrifenedig ohono gael ei gadw yn yr Eiddo ai wneud ar gael i unrhyw Swyddog Awdurdodedig ar gais. Bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei roi ar waith o leiaf bob 6 mis. Cofnodi achosion o wrthod gwerthiant 'nwyddau â chyfyngiad oedran' i bersonau sy'n ymddangos i fod o dan oed, ar ffurf 'Cofrestr Gwrthodiad'. Dylid cadw'r Gofrestr yn yr Eiddo a sicrhau ei fod ar gael i unrhyw Swyddog Awdurdodedig yn dilyn cais i'w archwilio. Y DPS i adolygu'r Gofrestr Gwrthodiad yn fisol ac i gofnodi'r canlyniad o fewn y Gofrestr, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu adfer sydd i'w cymryd. Ni fydd gan bersonau o dan 18 oed yr hawl i fynd i mewn i'r eiddo ac eithrio ar gyfer derbyniadau preifat sy'n digwydd yn yr ystafelloedd digwyddiadau. Bydd arwyddion yn cael ei arddangos yn hysbysu ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw berson geisio prynu alcohol ar gyfer person o dan 18
--	---

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD MAWRTH, 29 HYDREF 2024

	oed.
Dyddiad y Penderfyniad a Wnaed	29 Hydref 2024

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen [hon](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00

This page is intentionally left blank

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD LLUN, 23 RHAGFYR 2024 10:00

Presennol

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

Presennol – O Bell

JE Pratt

J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

Nick Dennison
Kirsty Evans
Mark Galvin
Michael Pitman

Cyfreithiwr
Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

17. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb
Dyddiad gwneud y penderfyniad	23 Rhagfyr 2023

18. Datganiadau o fuddiant

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD LLUN, 23 RHAGFYR 2024

Y penderfyniad a wnaed	Dim
Dyddiad gwneud y penderfyniad	23 Rhagfyr 2023

19. Deddf Trwyddedu 2003: Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro Adran 104 - Gwrthwynebiad i Hysbysiad gan lechyd yr Amgylchedd ar gyfer The Loft Bar Pen-y-bont ar Ogwr

Y penderfyniad a wnaed	Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth aelodau fod yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD) a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer The Loft Bar Pen-y-bont ar Ogwr, 1 Nolton Arcade, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DX, wedi cael ei dynnu'n ôl y bore yma, gan yr ymgeisydd Mr Dan Apsee. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod yr aelodau'n nodi bod y cais uchod yn cael ei dynnu'n ôl.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	23 Rhagfyr 2023

Terfynwyd y cyfarfod yn 10:25

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) A GYNHALIWYD SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

J Llewellyn-Hopkins

J E Pratt

Swyddogion:

Katie Wintle
Mark Galvin
Michael Pitman
Yvonne Witchell

Swyddog Cyfreithiol
Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Swyddog Trwyddedu

Ymgeisydd

Maninder Kaur (ynghyd â'i gynrychiolydd)

Gwrthwynebydd

Hayley Newell

23. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Penderfyniad Wnaed	Nid oedd dim ymddiheuriadau am absenoldeb
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

24. Datganiadau o Fuddiannau

Y Penderfyniad Wnaed	Nid oedd dim datganiadau o fuddiannau
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

25. Rhoi Trwydded Safle i V S STORES, 2 Heol y Tywysog, Mynydd Cynffig, CF33 6ED

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad, a'i bwrpas oedd penderfynu ar gais am drwydded safle ar gyfer V S Stores, a gyflwynwyd gan Sukhwinder Singh. Yna rhoddodd y Swyddog Trwyddedu amlinelliad o'r adroddiad er budd yr Aelodau a'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Yna trafodwyd y cais fel a ganlyn:- Y DEUNYDD GERBRON YR IS-BWYLLGOR Ar ddechrau'r gwrandawriad, roedd gan yr Is-bwyllgor adroddiad o'i flaen oddi wrth Swyddog Trwyddedu'r Cyngor oedd yn cynnwys y cais am y drwydded a gwrthwynebiadau ysgrifenedig y Gwrthwynebydd. ACHOS YR YMGEISYDD Dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod yr oriau arfaethedig ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, sef 6a.m.-10p.m, yn unol â safleoedd tebyg ar draws y fwrdeistref. Ni fyddent yn annog ymgynnull y tu allan i'r safle. Rhan fechan oedd alcohol o'r cynnig ehangach ledled y siop. Cyfeiriwyd at adran 10.15 o Ganllawiau Statudol y Swyddfa Gartref (a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003), sy'n nodi 'Dylai siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd yn arferol fod yn rhydd i ddarparu gwerthiannau alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg pan fydd y siop fanwerthu ar agor ar gyfer siopa oni bai bod rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, dros gyfyngu ar yr oriau hynny'. Esboniodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd y byddai angen tystiolaeth glir ac nid rhagdybiaethau ynghylch yr
----------------------	--

	hyn a allai ddigwydd, pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu. Derbyniwyd bod posibilrwydd o broblemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ond nid oes tystiolaeth yn cysylltu hyn â'r safle ar hyn o bryd. Dywedodd nad oes gan yr Ymgeisydd hanes o gwynion na niwsans a bod ganddo record lân. Nid oedd Heddlu De Cymru fel awdurdod cyfrifol wedi codi unrhyw wrthwynebiad. Mae gan yr Ymgeisydd brofiad o weithio mewn manwerthu trwyddedig ers 2016 pan dderbyniodd drwydded bersonol am y tro cyntaf. Mae wedi rhedeg ei siop ei hun yng Nghaerdydd heb unrhyw gwynion. Ar hyn o bryd mae ganddo gefnogaeth gadarnhaol gan drigolion lleol ym Mynydd Cynffig gyda llawer yn gofyn pryd y bydd yn gallu gwerthu alcohol ar y safle. Roedd yn cydnabod bod hanes hir i'r siop benodol hon yn y gymuned. Dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd ymhellach fod yr ymgeisydd wedi gweithio gyda Heddlu De Cymru i sicrhau bod system ddiogelwch gadarn yn ei lle a'u bod wedi dod i gytundeb ynghylch amodau i'w hychwanegu at y drwydded. O ran mynediad at alcohol gan bobl dan oed, bydd yn gweithredu'r polisi 'Her 25' a chaiff unrhyw wrthodiadau eu cofnodi a chedwir cofnodion hyfforddi. Bydd nifer o bosteri hefyd (fel y dangoswyd gan gynrychiolydd yr Ymgeisydd ar y sgrin) i ofyn i gwsmeriaid adael yn dawel er mwyn sicrhau atal niwsans cyhoeddus ac i wneud cwsmeriaid yn ymwybodol bod teledu cylch cyfyng ar y safle. Gyda golwg ar y pwynt a godwyd gan y gwrthwynebydd nad oedd angen siop gyfleustra arall yn gwerthu alcohol yn yr ardal, cyfeiriodd cynrychiolydd yr ymgeisydd at baragraff 14.19 o Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, sy'n nodi, "Gall fod dryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr "angen" am safle ac "effaith gronns" safle ar yr amcanion trwyddedu, er enghraifft, ar drosedd ac anhrefn. Mae "angen" yn ymwneud â'r galw masnachol am dafarn neu fwyty neu westy arall a mater i'r awdurdod cynllunio yw hynny ac i'r farchnad. Nid yw hwn yn fater i awdurdod trwyddedu wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu nac ar gyfer ei ddatganiad o bolisi trwyddedu". Felly, dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad yw 'angen' yn ystyriaeth ddilys. O ran lleoliad y siop ger canolfan adsefydlu, dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad yw hyn yn anarferol a bod siopau eraill yn gwerthu alcohol yn yr ardal hefyd. Nid yw o reidrwydd yn golygu y byddai'r cyhoedd yn awr yn mynd i brynu alcohol yn siop yr Ymgeisydd. Nid oes tystiolaeth y bydd yr hyn y mae'r gwrthwynebydd yn ei honni yn digwydd mewn gwirionedd. Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd at baragraff 8.41 o Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, gyda golwg ar y galw a chystadleuaeth a dywedodd nad yw'r rhain yn ystyriaethau perthnasol a bod rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ganolbwyntio ar yr amcanion trwyddedu. Dywedodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod yr Ymgeisydd wedi dangos tystiolaeth o sut y gall gyflawni'r amcanion trwyddedu ac felly mae'n gofyn i'r Is-bwyllgor ganiatáu'r drwydded gyda'r amodau y cytunwyd arnynt a chaniatáu iddo wasanaethu'r gymuned yn gyfrifol.
--	--

	ACHOS Y GWRTHWYNEBYDD Cyfeiriodd y Gwrthwynebydd at ei gwrthwynebiadau ysgrifenedig y mae'r Is-bwyllgor wedi eu hystyried yn fanwl. Nododd y Gwrthwynebydd fod Cynrychiolydd yr ymgeisydd wedi dweud nad oedd gan y siop hanes o ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd y siop dros 40 o flynyddoedd wedi cael trwydded erioed i werthu alcohol a'u bod wedi arfer cau am 4 p.m. ac na fu problemau o'r blaen. Ei phryder mwyaf hi oedd ymddygiad gwrth-gymdeithasol a dywedodd fod yna fainc 4 drws i fyny oddi wrth y siop lle mae defnyddwyr alcohol a chyffuriau yn ymgynnull oherwydd eu bod yn byw yn union gyferbyn. Mae hi'n credu bod gwahaniaeth rhwng gwneud penderfyniad ymwybodol ar y naill law i gerdded 10 munud i brynu alcohol a'i gael ar y llaw arall ar garreg eich drws a dywedodd fod dyletswydd ar y Cyngor i ofalu am drigolion yr ardal. Nododd hefyd fod yna ganolfan adsefydlu arall ddwy stryd y tu ôl i'r siop a'i bod gymaint yn nes na gorfod cerdded i siop arall a gwneud penderfyniad i fynd i brynu alcohol. Cyfeiriodd y Gerthwynebydd at yr adroddiad i'r Is-bwyllgor a nododd yn eitem 5 ar yr agenda "Goblygiadau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cyswllt â'r Amcanion Lles Corfforaethol" sydd, meddai, yn dadlau dros Gymru iachach. Ei barn hi yw, os bydd mwy o alcohol ar gael yn rhwydd, yna nid Cymru iachach yr ydym yn ei darparu ond mwy o demtasiwn. Mynegodd y Gwrthwynebydd hefyd ei phryderon fod y Talbot Institute yn union gyferbyn â'r siop sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau plant a phlant bach a theuluoedd ifanc. Nid yw hi'n credu y dylent orfod gweld pobl yn dod allan o'r siop gydag alcohol ac mae hyn yn wir hefyd am ysgol y babanod sydd ond rhyw funud i ffwrdd o waith cerdded. Ni ddylent orfod gweld alcohol yn yr ardal. Unwaith y byddai prynwyr wedi gadael y safle gydag alcohol, ni fyddai rheolaeth a gallent wneud yr hyn a fynnent. Mae hi'n teimlo bod 6 o'r gloch y bore i brynu alcohol yn rhy ormodol a bydd teuluoedd yn danfon plant i'r ysgol, yn y bore a'r prynhawn. Mae llawer o bobl yn parcio yno a byddent yn dod allan o'u ceir ac nid yw y lle gorau i alcohol fod ar werth. Dywedodd y Gwrthwynebydd fod gan y Cyngor ddyletswydd o ofal tuag at bobl sydd â phroblemau dibyniaeth ar alcohol. Mae'r Clwb Llafur wedi ei leoli gyferbyn a gallai pobl fynd i brynu alcohol yno pe bai angen. DATGANIADAU CLO Y Gwrthwynebydd
--	---

	Prif bryder y Gwrthwynebydd oedd y cynnydd mewn ymddygiad gwrth-gmdeithasol, yn enwedig gyda phobl sydd â phroblemau yn ymwneud ag alcohol a chamddefnyddio sylweddau a'i theimlad hi oedd y dylem fod yn ceisio eu helpu a'u cefnogi. Mae agosrwydd y siop at y cyfleuster adsefydlu a'r ysgol yn destun pryder a'i barn hi oedd, hyd yn oed gyda'r bwriad gorau o safbwynt yr Ymgeisydd, y byddai problemau'n codi cyn gynted ag y byddai prynwyr wedi prynu alcohol a gadael y safle. Yr Ymgeisydd Ailadroddodd yr Ymgeisydd, er na fu unrhyw gwynion a'i fod yn nodi'r pwynt a godwyd na fu gan y safle drwydded o'r blaen, nad oedd hyn yn golygu y gallwn gymryd yn ganiataol y byddai yna niwsans pe bai trwydded o'r fath yn cael ei aniatáu. Dymunai hefyd nodi bod y safle y tu allan i'r Ardal Effaith Gronnus ac felly nad yw'n ymddangos bod yna broblemau ar hyn o bryd. Dywedodd yr Ymgeisydd, os oedd yr Is-bwyllgor o'r farn fod y safle yn rhy agos i ysgolion, yna y byddai ef yn cytuno i newid ei oriau gwerthu alcohol i 09:00 tan 21:00. CANFYDDIADAU'R IS-BWYLLGOR Mae'r Is-bwyllgor yn nodi pryderon y Gwrthwynebydd. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd rhoi trwydded yn achosi cynnydd mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'n nodi nad yw Heddlu De Cymru wedi mynegi pryderon bod hyn yn broblem. Nid yw cyfeiriadau at 'Les Cenedlaethau'r Dyfodol' yn fater y mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i'w ystyried wrth ystyried cais o'r math hwn. PENDERFYNIAD YR IS-BWYLLGOR Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor wrth wneud ei benderfyniadau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol. Mae'r Is-bwyllgor wedi cymryd Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor i ystyriaeth, yr arweiniad statudol a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r Ddeddf Drwyddedu ei hun, ac yn yr achos hwn yr adrannau canlynol:- Adrannau 1, 4, 5, 6, 7, 9, 34, 35 a 36 y Ddeddf. Adrannau 2, 3, 4, 5, a 7 i 11 o Ddatganiad Polisi Trwyddedu 2019-2024. Adrannau 2, 5, 8, 9, 10 a 14 o'r Canllaw Statudol i awdurdodau lleol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.
--	--

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) - DYDD MERCHER, 23 GORFFENNAF 2025

	Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan yr ymgeisydd a'r gwrthwynebydd, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y gwrandawriad. Mae'r Is-bwyllgor yn ystyried yr Ymgeisydd yn unigolyn cyfrifol sy'n cydnabod pwysigrwyd gweithredu'n gyfrifol ac yn cymryd i ystriaeth nad oes ar hyn o bryd ddim tystiolaeth o ymddygiad gwrth-gymdeithasol na materion eraill fyddai'n tanseilio'r amcanion trwyddedu. Felly, penderfyniad yr Is-bwyllgor yw rhoi trwydded i'r Ymgeisydd, yn unol â'i gynigion fel yr amlinellwyd hwy yn ei gais, gyda'r amodau canlynol fel y cytunwyd gyda Heddlu De Cymru:- “Atal Trosedd ac Anhrefn Rhaid i'r safle gynnal system gofnodi teledu cylch cyfyng ddigidol sy'n medru cofnodi 31 diwrnod o 24 awr o recordio gyda monitor o'r golwg ac allan o gyrraedd cwsmeriaid. Rhaid cadw'r delweddau am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd yr offer wedi ei ddiogelu'n addas gyda mynediad ato wedi ei gyfyngu. Rhaid i'r system deledu cylch cyfyng gwmpasu'r holl rannau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt ar y safle gan gynnwys mynedfeydd ac allanfeydd. Caiff y system CCTV ei chynnal a'i gweithredu drwy'r amser y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd. Rhaid i'r delweddau fod ar gael pan ofynnir ac o fewn 7 diwrnod i'r Heddlu neu swyddogion gorfodi eraill naill ai ar USB, disg neu drwy unrhyw system a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru, pan wneir gorchymyn cyfreithlon gan Blismon neu swyddog yr Awdurdod Lleol. Caiff y system CCTV ei gwirio'n fisol i sicrhau ei bod yn gweithio'n llawn, a chedwir llyfr yn cadarnhau hyn ar y safle i'w archwilio.”
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	23 Gorffennaf 2025

I wyllo rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:50.

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank